**Y PWYLLGOR ADOLYGU ARCHWILIO A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**15 Mai 2019**

Yn bresennol: Mr A Archer (Cadeirydd)
Y Cynghorydd D Clements, Mrs G Hayward, Dr R Heath Davies, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd M Williams

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 12.15pm - 13.20pm)

**1. Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol gan y Cynghorydd P Baker a'r Cynghorydd P Kidney.

**2. Datgan buddiant**
Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Holodd yr Aelodau am Gofnod 4: Tân mewn Adeilad (digwyddiad 825). Eglurodd y Prif Weithredwr fod tân wedi digwydd mewn tŷ mas bach a leolir yn Sageston, yr oedd yr Awdurdod yn berchen arno ar y pryd. Ers hynny gwerthwyd y tir hwn i Gymdeithas Tai Ateb.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2019.

**4. Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad am y cyfarfod**
Ystyriodd yr Aelodau adroddiad am gyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2018.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad am gyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2018.

**5. Cynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru 2019**
Croesawodd y Cadeirydd Mr Deryck Evans o Swyddfa Archwilio Cymru. Cadarnhaodd Mr Evans fod yr archwiliad ariannol wedi dilyn y broses arferol fel yn y gorffennol. Dywedodd nad oedd unrhyw faterion penodol wedi'u nodi, eu bod ar hyn o bryd ar y blaen o ran amser, a'u bod yn bwriadu cymeradwyo'r Archwiliad. Cadarnhaodd Mr Evans hefyd fod y cynllun yn nodi'r ffioedd archwilio ar gyfer y flwyddyn i ddod ac y byddai unrhyw arian a ordalwyd yn cael ei ddychwelyd i'r Awdurdod.

Tynnodd un Aelod sylw at gamgymeriad teipograffyddol o ran y ffioedd ar dudalen 23 yr adroddiad a hefyd y cyfeiriwyd at yr Awdurdod yn yr adroddiad fel 'Cyngor'. Cadarnhaodd Mr Evans fod yr eitemau hyn wedi'u nodi ac y byddent yn cael eu cywiro. Teimlai'r Aelodau y byddai'n ddefnyddiol cael tabl ar ddiwedd yr adroddiad a oedd yn dangos sut y cyrhaeddwyd y ffioedd.  Roedd Mr Evans yn fodlon cytuno â'r cais hwn.

**NODWYD**

## 6. Adroddiad Archwilio Mewnol 2018/19

Cyflwynodd y Cadeirydd Mr Robin Pritchard o Gateway Assure, a roddodd grynodeb o ganlyniad y gwaith a wnaed gan Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod o gymharu â chynllun archwilio gweithredol 2018/19 a gymeradwywyd gan Bwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol yr Awdurdod.  Y meysydd a adolygwyd oedd, Llywodraethu Corfforaethol, Castell Henllys, Rheoli Risg,  Rheolaethau Ariannol Allweddol – Meddalwedd Exchequer, Castell Caeriw a Datblygu Perfformiad.  Cadarnhaodd eu bod wedi dod i gasgliadau cadarnhaol iawn yn gyffredinol ynghylch y polisïau, y gweithdrefnau a'r gweithrediadau sydd ar waith.

**NODWYD**

## 7. Bloc 2 Adroddiad Archwilio Mewnol

Canlyniad y gwaith a gwblhawyd yn erbyn Bloc 2 o gynllun archwilio gweithredol 2018/19 oedd yr adroddiad.  Roedd yr Archwilwyr Mewnol wedi adolygu Meddalwedd Exchequer, Castell Caeriw a Rheoli Perfformiad.  Dywedodd Mr Pritchard fod Meddalwedd Exchequer yn ddigonol ac nad oedd angen ei newid oni bai bod mantais o ran cost. Cynhaliwyd adolygiad trosfwaol ar gyfer Castell Caeriw gan symud yn ôl i gynllunio cyllideb.  Gofynnodd yr aelodau am ddiogelwch staff wrth fynd i'r banc, a chadarnhawyd bod y llwybrau a’r amseroedd bancio yn cael eu newid yn rheolaidd. O ran Rheoli Perfformiad, teimlai Mr Pritchard fod angen sicrhau cydbwysedd o ran faint o wybodaeth a dderbyniwyd mewn perthynas â thynnu sylw’r Aelodau at faterion allweddol yn hytrach na dim ond newyddion da.

**NODWYD**

## 8. Strategaeth Archwilio Mewnol Drafft 2019/20 i 2021/22

Gofynnwyd i'r Aelodau dderbyn y strategaeth archwilio mewnol drafft ar gyfer 2019/20 i 2021/22.  Cafodd Cynllun y llynedd ei ddwyn ymlaen gan

roi ystyriaeth i feysydd nad edrychwyd arnynt yn y 5 mlynedd diwethaf. Roedd Atodiad B yn dangos awgrymiadau ar gyfer 2019/20. Gofynnodd un Aelod beth oedd gan yr Archwilwyr mewn golwg o ran parhad busnes, a dywedodd Mr Pritchard eu bod yn edrych ar y polisi i weld a oedd yn rhaid ei adolygu ac a oedd yn dal yn ateb y diben. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Rheolwr TG newydd yn cymryd rhan yn y dyfodol.

**NODWYD**

**9. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19**

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac fe'u gwahoddwyd i gyfrannu at a llunio cynnwys y datganiad drafft 2018/19 a oedd yn atodedig.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y gwaith o glirio'r ôl-groniad o Achosion Gorfodi wedi'i gyflawni. Cadarnhawyd bod hyn wedi'i wneud, ac eithrio un neu ddau o achosion. Amlygodd y Prif Weithredwr y ffaith bod un Aelod wedi awgrymu bod yr Awdurdod yn gwneud cais am Statws Siarter Aelodau Uwch a chyda hyn mewn golwg, sefydlwyd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau. Teimlai'r aelodau ei fod yn adroddiad da a oedd yn dangos faint yn union o waith sy'n mynd ymlaen. Roedd rhywfaint o bryder bod yr Awdurdod yn cael ei daenu'n rhy denau gyda chynifer o adroddiadau. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi addo anfon pecyn o offer i gynorthwyo gyda hyn ond gan nad oedd wedi dod i law, penderfynwyd y byddai angen anfon nodyn atgoffa yn gofyn am gymorth pellach.

**NODWYD**

**10. Adroddiad Perfformiad ar gyfer y Cyfnod sy'n dod i ben 31 Mawrth 2019**

Roedd yr adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2018/19, ac yn dilyn dull Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda saith amcan llesiant. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at berfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn rhwng Ebrill a Mawrth 2018/19 ac yn cynnwys data Chwarter 4 (Ionawr-Mawrth) ar gyfer y mwyafrif o setiau data. Roedd nifer o gamau yn parhau'n oren, ac roedd y rhain yn ymwneud â meysydd lle mae angen gwaith pellach i ddatblygu gweithgareddau neu weithredoedd fel rhan o gynllun tymor hwy.

(Gadawodd y Cynghorydd Michael Evans ar y pwynt hwn.)

Gofynnodd un Aelod a oedd gan yr Awdurdod feincnod ar gyfer gwneud y fflyd yn fwy gwyrdd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oedd, ond edrychir ar hyn unwaith y byddai'r trefniant rheoli fflyd newydd yn ei le. Dywedodd y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth fod yr Awdurdod yn archwilio allyriadau carbon ac y gellir defnyddio'r ffigurau ar

gyfer cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, gallai gwaith ehangach sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Garbon effeithio ar y cyfrifiad a ddefnyddir. Dywedodd hefyd fod cyllid wedi'i sicrhau a fyddai'n cynorthwyo gyda'r Prosiect Ysgolion Awyr Agored. Teimlai'r Aelodau fod angen adroddiad ar GDPR i ddangos a oedd yr Awdurdod yn cydymffurfio.

**NODWYD**

**11. Cofrestr Risg**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf, a oedd wedi'i diwygio yn unol ag argymhelliad Archwilio Mewnol.

Amlygodd y Rheolwr Cyllid effaith cyllid tymor canolig i dymor byr ar grant Parc Cenedlaethol sylfaenol yr Awdurdod. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gamgymeriad wrth symud y Parciau Cenedlaethol i adran arall o fewn Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod hyn wedi'i ddatrys ar gyfer 2019/20. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru ar gyfer dydd Llun yr 20fed i ddatrys problemau tymor hwy.

Gofynnodd un Aelod beth fyddai dyfodol Cilrhedyn. Nododd y Prif Weithredwr fod y costau gweithredu net yn llai na rhentu eiddo arall ar gyfer y Wardeiniaid ond byddai hyn yn cael ei ystyried eto. Teimlwyd y dylai unrhyw gwynion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg fod yn bwynt sbarduno. Hefyd, roedd y Cynllun Bioamrywiaeth yn ymddangos yn fwy goddefol nag y dylai fod.

(Gadawodd y Cynghorydd Michael James ar y pwynt yma.)

Mynegodd yr aelodau bryder am y sgôr oren ar gyfer system ffôn yr Awdurdod. Dywedodd y Prif Weithredwr, er bod y system yn hen, y gallai'r Awdurdod ddefnyddio ffonau symudol pe bai'r system yn methu.

**NODWYD**

**12. Derbyn Diweddariad Llafar gan y Rheolwr Cyllid ar Berfformiad y Gyllideb am y deuddeg mis yn dod i ben ym mis Mawrth 2019.**

Er bod cyllideb o ddim wedi'i sefydlu, roedd yr Awdurdod yn edrych ar warged o £250,000 oherwydd arian ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, swyddi gwag a ffioedd cynllunio uwch. Roedd angen gwneud cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i wrthweithio'r gostyngiad yn y dyfodol. Dylid cwblhau'r Cyfrifon o fewn yr ychydig wythnosau nesaf a disgwylir y byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod ym mis Gorffennaf.

**13. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.